

# Ymateb Ysgrifenedig Jane Hutt AC, y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau i Adroddiad y Pwyllgor Cyllid ynghylch y Cyfnod Sylfaen

## Medi 2008

### Crynodeb Gweithredol

Un argymhelliad oedd yn yr Adroddiad, sef y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru sicrhau bod digon o arian yn cael ei neilltuo ar gyfer cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen. Dyma fymateb i'r argymhelliad hwnnw.

### Argymhelliad y Pwyllgor

Sef:

Y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru sicrhau bod digon o arian yn cael ei neilltuo er mwyn cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen yn y ffordd fwyaf effeithiol bosibl yn ystod y pedair blynedd nesaf.

### Ymateb: Derbyn

Derbyniad yr argymhelliad hwn. Pan roddais dystiolaeth gerbron y Pwyllgor ar 22 Mai, roeddwn yn cydnabod yn llawn y byddai angen arian ychwanegol o 2009-10 ymlaen, ac yn y blynyddoedd wedi hynny, ar gyfer y gwaith o gyflwyno'r Cyfnod Sylfaen. Fel yr esboniais pan gyflwynais y dystiolaeth, mae fy swyddogion wedi bod yn gweithio'n agos ag awdurdodau lleol i gasglu a defnyddio data ar niferoedd staff a disgyblion er mwyn creu rhagolygon modelu ariannol cadarn fel sail i gyllideb 2009-10 ac ymlaen i'r dyfodol.

Yn ogystal â hyn, rwy wedi derbyn cyngor ynghylch anghenion ariannol ac amserlen y Cyfnod Sylfaen gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar gyfer Cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o Gymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac undebau'r athrawon. Yn sgil cyngor gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen, cyhoeddais y bydd amserlen gyflwyno'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei hymestyn i bedair blynedd. Mae'r amserlen newydd bellach yn rhan o'r model ariannol.

Gyda'i gilydd, rwy'n teimlo'n hyderus y bydd y ddau weithrediad hwn yn esgor ar dystiolaeth gynhwysfawr am anghenion y Cyfnod Sylfaen, er mwyn i mi allu eu trafod â'r Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus. Bydd canlyniadau'r trafod ar gael i'r cyhoedd yn nes ymlaen yn y flwyddyn fel rhan o'n cynlluniau ar gyfer y gyllideb.

Roedd y Pwyllgor hefyd yn pryderu nad oedd yr awdurdodau lleol a Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi bod yn cyfnewid digon o wybodaeth. Hoffwn gadarnhau wrth y Pwyllgor fod y mater hwn wedi derbyn sylw, gan mwyaf trwy delerau ac amodau Grant y Cyfnod Sylfaen, a bydd awdurdodau lleol ac ysgolion yn adrodd yn rheolaidd ar yr anghenion staffio yn y presennol ac yn y dyfodol.

**Jane Hutt AC,**

**Y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau**